OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 656 (Cy. 75)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2013

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *13 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Ddolgellau i Dde Penbedw (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn: –

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A494 yn Loggerheads ger yr Wyddgrug yn Sir Ddinbych sydd wedi eu pennu yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "llain ymyl" *("verge")* yw unrhyw ran o'r gefnffordd nad yw'n lôn gerbydau, yn gilfan nac yn gilfan fysiau ac sy'n cynnwys y droedffordd gyfagos.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, onid yw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd neu â chaniatâd heddwas, swyddog cymorth cymunedol o'r heddlu, neu swyddog gorfodi sifil, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau penodedig o'r gefnffordd, gan gynnwys y lleiniau ymyl.

**Esemptiadau**

**4.** Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau penodedig o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthygl honno am gyhyd ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi: –

(a) i unrhyw berson fynd ar gerbyd neu ddisgyn oddi arno;

(b) i nwyddau gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho oddi arno;

(c) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: –

(i) gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr ar draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau a enwyd o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio, ar y darnau a enwyd o'r gefnffordd neu ar dir cyfagos â hwy, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003**(2)**;

(ch) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio at wasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) i'r cerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw fodurdy sydd wedi ei leoli ar y darnau a enwyd o'r gefnffordd neu'n gyfagos â hwy; neu

(dd) i'r cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion brigâd dân, ambiwlans neu'r heddlu;

(e) i'r cerbyd stopio:

i. pan fo'n ofynnol o dan y gyfraith i'r sawl sy'n rheoli'r cerbyd ei stopio;

ii. pan fo'n orfodol ar y sawl sy'n rheoli'r cerbyd ei stopio er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan fo'r sawl sy'n rheoli'r cerbyd yn cael ei atal rhag mynd ymlaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Loggerheads) (Gwahardd Aros) 1976**(3)** yn cael ei ddiddymu drwy hyn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Mawrth 2013

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; cafodd adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) eu diwygio gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17 a 18. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** 2003 p.21

**(3)** O.S. 1976/839

## YR ATODLEN

### Darnau o Gefnffordd yr A494 yn Loggerheads ger yr Wyddgrug yn Sir Ddinbych

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Gadole i bwynt 32 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 15 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth Village Road i bwynt 33.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 96.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth Village Road, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 895 metr.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth i Gadole, i bwynt 54.5 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth Village Road i bwynt 82 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth Village Road, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 773 metr.